Cyngor Ar Bopeth Cymru
Citizens Advice Cymru

**Ymateb i Ymgynghoriad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) - Medi 2014**

## Cyngor ar Bopeth Cymru

1.1 Elusen annibynnol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr yw Cyngor ar Bopeth. Mae'n gweithredu fel Cyngor ar Bopeth Cymru yng Nghymru gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd a'r Rhyl. Mae yna 20 o aelodau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru, pob un yn aelod o Cyngor ar Bopeth Cymru, ac yn darparu gwasanaethau o dros 375 o leoliadau.

Dau amcan Cyngor ar Bopeth yw:

- rhoi cyngor i bobl ar y problemau sydd ganddynt
- gwella'r polisïau a'r arferion sy'n effeithio ar fywydau pobl.

1.2 Mae addysg ariannol yn dod yn rhan sylweddol gynyddol o waith y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi'i gyflawni drwy ein Rhaglen Sgiliau Ariannol am Oes a sefydlwyd yn 2002 mewn partneriaeth â Prudential. Yn 2013, darparodd 80 y cant o ganolfannau Cyngor ar Bopeth yng Nghymru (16 canolfan) wasanaethau gallu ariannol yn eu cymunedau lleol, gydag ychydig mwy (17 canolfan) yn gwneud neu'n bwriadu gwneud gwaith gallu ariannol yn 2014.

Mae'r canolfannau yn darparu mentrau gallu ariannol yn uniongyrchol i'r rhai sydd eu hangen ac i weithwyr rheng flaen hefyd e.e. staff cymdeithasau tai sy'n ymwneud â phobl ar incwm isel a/neu mewn grwpiau agored i niwed. Derbyniodd 4,900 o bobl hyfforddiant uniongyrchol (wyneb yn wyneb) yng Nghymru yn 2013 gydag 11,000 arall yn elwa wrth i weithwyr rheng flaen drosglwyddo'r hyn a ddysgwyd i'w cleientiaid.

1.3 Cyngor ar Bopeth Cymru sydd â'r prif gontract ar gyfer darparu Prosiect Cyngor Ariannol Wyneb yn Wyneb yng Nghymru a'r sefydliad arweiniol ar gyfer darparu Prosiect Cyngor ar Ddyledion Wyneb yn Wyneb ledled Cymru. Ariennir y ddau brosiect gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS). Rhoddwyd y contract Cynghori Ariannol cychwynnol am dair blynedd ac mae wedi'i ymestyn am ddwy flynedd arall nes diwedd Mawrth 2016. Yn ystod 2013/14, darparodd y gwasanaeth bron i 6,400 o sesiynau (120 y cant o darged y prosiect) mewn dros 175 o leoliadau cymunedol ledled Cymru, yn cynnwys ysbytai, archfarchnadoedd a llyfrgelloedd.

1.4 Yn ogystal â'r uchod mae Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd yn rheoli Prosiect Canlyniadau a Rennir Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, a ddechreuodd ym mis Hydref 2013 ac sydd i fod i orffen ym mis Mawrth 2015. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi'r 36 o'r 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru nad oedd ganddynt wasanaethau allgymorth pwrpasol yn y gymuned cyn hyn i ddarparu cyngor ar ddyledion, cyngor ar fudd-daliadau lles (yn cynnwys cynyddu incwm) neu ddarparu gallu ariannol. Mae gwaith gallu ariannol yn cael ei gyflawni mewn pedair ardal ar hyn o bryd - Caerdydd (15 lleoliad allgymorth); Merthyr Tudful (6 lleoliad); Torfaen a Chonwy (5 lleoliad yr un).

**C1: A oes angen Bil i roi i bobl yng Nghymru y wybodaeth a'r gallu ariannol angenrheidiol sydd eu hangen arnynt i reoli eu hamgylchiadau ariannol yn effeithiol?**

2.1 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn cefnogi egwyddorion cyffredinol Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru). Mae'r hinsawdd economaidd sydd ohoni a'r newidiadau niferus i fudd-daliadau a gyflwynir ar hyn o bryd ac yn y blynyddoedd nesaf (yn enwedig credyd cynhwysol) yn golygu ei bod hi'n bwysig i bobl gael dealltwriaeth well o faterion ariannol.

2.2 Dangosodd gwaith ymchwil diweddar a gomisiynwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru a Shelter Cymru ym mis Gorffennaf 2014 fod aelwydydd ledled Cymru yn parhau i wynebu pwysau ariannol. Canfu'r ymchwil fod 70 y cant o oedolion Cymru'n parhau i boeni fod costau byw yn codi a bod dros hanner (58 y cant) yn cael trafferth i dalu biliau ac ymrwymiadau credyd, sy'n codi i ddau draean (67 y cant) ymysg y rhai sydd yng ngradd gymdeithasol C2/DE[1].

2.3 Mae ein hadroddiad diweddar 'Un dydd ar y tro' hefyd yn edrych ar effaith gronnol diwygio lles ar hawlwyr budd-daliadau yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth gan y rhwydwaith Cyngor ar Bopeth yng Nghymru yn ogystal ag ymchwil ansoddol bwrpasol a gomisiynwyd gan Cyngor ar Bopeth Cymru i ystyried y 'profiad ymarferol' o'r newidiadau diweddar i fudd-daliadau a sut mae pobl yn teimlo am eu gallu i reoli eu dyfodol.

Mae'r canfyddiadau'n dangos sut mae'r newidiadau'n cael effaith negyddol yn bennaf ar fywydau'r hawlwyr, yn enwedig y rhai sy'n byw ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Maent hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw darparu cymorth cyfannol i hawlwyr, yn cynnwys cysylltu gwybodaeth am newidiadau i fudd-daliadau gyda chyngor ar

---

[1] http://www.citizensadvice.org.uk/index/pressoffice/press_index/press_2014080702.htm

sut i ddiwallu anghenion gallu ariannol/cymorth i gyllidebu (a mathau eraill o gyngor).

2.4 Profwyd gwerth gwella gallu ariannol pobl yn ystod gwerthusiadau annibynnol o'r mentrau addysg ariannol a weinyddir gan Cyngor ar Bopeth. Dros y degawd diwethaf mae gwerthusiadau wedi dangos sut mae'r rhaglenni hyn wedi bod yn gymorth cyson i wella hyder a sgiliau pobl i reoli arian. Nodwyd amryw o 'fanteision cymdeithasol' ehangach hefyd fel llai o straen, gallu cynllunio ar gyfer cyflogaeth, gallu cynnal tenantiaeth neu forgais, mwy o hyder fel defnyddiwr a gallu cefnogi ffrindiau a theulu. Mae buddsoddi mewn rhaglenni gallu ariannol hefyd yn dod ag elw ariannol gwirioneddol, nid yn unig i aelwydydd unigol ond i'r economi leol gydag effaith lluosydd o fwy o alw am nwyddau a gwasanaethau[2].

2.5 **Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn credu y byddai deddfwriaeth yn fuddiol ar gyfer meysydd penodol yn y Bil, ond ei bod hi'n bosibl defnyddio mecanweithiau a deddfwriaeth cyfredol mewn meysydd eraill i gyflawni nifer o amcanion y Bil.**

*Darparu addysg ariannol mewn ysgolion a gynhelir (adrannau 4 a 5)*

2.6 Mae addysg ariannol wedi'i chynnwys yn y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer disgyblion 7 i 16 oed mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru ers mis Medi 2008, ym mhynciau Mathemateg, Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) a gyrfaoedd a Byd Gwaith (i ddisgyblion 11 i 19 oed) yn bennaf. Cryfhawyd hyn ymhellach drwy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

2.7 Rydym yn llwyr gefnogi'r datblygiadau hyn ac yn croesawu'r cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf i ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion yng Nghymru. Yn hyn o beth, mae Cymru wedi bod ymhell ar y blaen i Loegr sydd newydd ddechrau addysgu addysg ariannol yn ffurfiol drwy'r Cwricwlwm Cenedlaethol newydd ar gyfer Lloegr h.y. o fis Medi 2014.

2.8 Monitro a gwerthuso effeithiol fydd yr unig ffordd o wybod a yw'r dulliau cyfredol yn llwyddiannus ai peidio. O ganlyniad, roeddem yn bryderus am ganfyddiadau adroddiad 'Materion Ariannol' Estyn (o 2011) a oedd yn dangos y diffyg cysondeb wrth ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion ledled Cymru. Rydym yn cymeradwyo'n gryf y dull ysgol gyfan o ddarparu addysg ariannol ac roeddem yn siomedig mai dim ond lleiafrif o ysgolion oedd *"wedi mynd ati'n ofalus i gynllunio a mapio cyfleoedd ar gyfer addysg ariannol mewn pynciau neu destunau ar draws y cwricwlwm"* ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

[2] 'From small change to lasting change: Financial Skills for Life 2002-2012', Cygnor ar Bopeth a Prudential (Mai 2012)

2.9 Rydym yn cydnabod gwerth rhoi statws statudol i addysg ariannol yn y cwricwlwm sylfaenol yng Nghymru (yn debyg i ABCh a Gyrfaoedd a Byd Gwaith) fel yr argymhellir yn y Bil, gan y gallai hyn gyfrannu at sicrhau cydraddoldeb a chysondeb yn y ddarpariaeth ledled Cymru.

**Er ein bod yn cefnogi'r egwyddor gyffredinol o'i gwneud yn ofyniad cyfreithiol, gall datblygiadau diweddar a pharhaus a newidiadau i'r cwricwlwm yng Nghymru wneud cryn dipyn i fynd i'r afael â darpariaeth anghyson.**

**Rydym felly'n credu y gallai fod yn bwysicach canolbwyntio ar sicrhau bod trefniadau pendant yn cael eu cyflwyno i fonitro effeithiolrwydd gofynion cyfredol y cwricwlwm mewn perthynas ag addysg ariannol yn rheolaidd. Dylai hyn gynnwys mesur yr effaith ar wybodaeth ac ymddygiad disgyblion (gweler ei hymateb i C3 hefyd).**

2.10 Rydym yn cytuno'n gryf bod cyfraniad gan a chydweithredu rhwng y sectorau statudol a phreifat a'r trydydd sector yn allweddol i lwyddiant gwaith addysg ariannol. Er ein bod ni'n credu y gellir cyflawni hyn drwy waith partneriaeth effeithiol nid ydym yn gwrthwynebu cynnwys darpariaeth yn y Bil i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unigolion sydd ag arbenigedd berthnasol ym maes gwasanaethau ariannol a rheoli ariannol (adran 5).

*Adroddiad blynyddol (adran 6)*

2.11 Mae materion sy'n gysylltiedig ag adran 6 yn cael eu trafod o dan gwestiwn 3.

*Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol (adrannau 7 ac 11)*

2.12 Mae gwaith ymchwil a wnaed gan Llais Defnyddwyr Cymru[3] yn 2010[4] yn cadarnhau pwysigrwydd darparu addysg ariannol glir, wedi'i threfnu'n dda i bobl ifanc sy'n byw mewn lleoliadau gofal awdurdodau lleol cyn iddynt symud o ofal i fyw'n annibynnol.

2.13 Er i'r gwaith ymchwil ganfod tystiolaeth o arferion da, dangosodd y canfyddiadau hefyd fod effeithiolrwydd darpariaeth gwybodaeth ariannol gan awdurdodau lleol yn gyfyngedig ac anghyson mewn llawer o achosion.

---

[3] Ar 1 Ebrill 2013 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am gynrychioli defnyddwyr o Lais Defnyddwyr i'r Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth (yn cynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru) yn dilyn adolygiad Llywodraeth y DU o faes defnyddwyr.

[4] 'O Ofal i Ofid? Sut mae pobl ifanc yn ymdopi'n ariannol ar ôl gofal' Llais Defnyddwyr Cymru (Mawrth 2011)

2.14 Credwn ei bod hi'n hanfodol bod anghenion gallu ariannol person ifanc sydd dan ofal awdurdod lleol yn cael eu hystyried gydol ei amser mewn gofal, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei gynllun gofal a chymorth a'i gynllun llwybr, wrth iddo/i baratoi i adael gofal. Credwn hefyd y dylid adolygu anghenion o'r fath yn rheolaidd o 16 oed ymlaen (e.e. 18 oed a 21 oed) i nodi unrhyw anawsterau ariannol ac y dylid cyfeirio'r person ifanc at gymorth priodol.

2.15 O ran plant sy'n derbyn gofal, mae adran 83 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi y dylai rheoliadau amlinellu beth ddylid ei gynnwys mewn cynllun gofal a chymorth ac y dylid adolygu cynlluniau o'r fath yn rheolaidd. Mae Adran 107 hefyd yn datgan y dylai cynllun llwybr nodi'r cyngor a'r cymorth y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu eu darparu i'r unigolyn ifanc (categorïau 1 i 4) unwaith y bydd yn 16 oed.

2.16 **Byddem yn croesawu'r diwygiad i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i gynnwys gofynion o'r fath ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn derbyn addysg ariannol briodol fel rhan o'u cynlluniau gofal.**

*Cyngor ar reolaeth ariannol (adrannau 12 a 13)*

2.17 Mae nodiadau 190 i 194 y Memorandwm Esboniadol yn nodi pa mor bwysig yw hi i bobl dderbyn cyngor o ansawdd da ar reolaeth ariannol a phwysigrwydd trefniadau atgyfeirio effeithiol i sefydliadau cyngor a chymorth lleol sy'n gallu darparu hyn. Mae gan nifer o ganolfannau cynghori yng Nghymru drefniadau atgyfeirio da iawn gyda'u hawdurdod lleol e.e. Cyngor Caerffili.

2.18 Rydym yn croesawu cynigion y Bil i helpu awdurdodau lleol i gyfeirio pobl sydd angen cyngor ar faterion ariannol at ddarparwyr cyngor lleol priodol ond nid ydym yn credu bod y cynigion, fel y'u diffinnir yn adrannau 12 a 13, yn mynd yn ddigon pell i sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at gyngor am ddim o safon.

2.19 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr cyngor eraill yng Nghymru i ddatblygu safonau ansawdd cenedlaethol ledled y sector cynghori yn unol ag argymhellion Adolygiad Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Cynghori.

2.20 **Os yw'r Bil yn mynd yn ei flaen credwn y dylai gynnwys gofyniad i bob sefydliad sy'n gwneud gwaith gallu ariannol fodloni'r safonau ansawdd cenedlaethol hyn, pan fyddant ar waith.**

*Dyletswydd awdurdodau lleol i gyhoeddi strategaeth cynhwysiant ariannol (adrannau 8 i 10)*

2.21 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n cytuno bod angen ymrwymiad i ddatblygu amcanion cynhwysiant ariannol ar y lefel uchaf mewn awdurdodau lleol ond yn credu bod angen ymgymryd â'r gwaith hwn fel rhan o'r agenda trechu tlodi ehangach. Dylai hyn helpu i sicrhau bod gweithgareddau i hyrwyddo cynhwysiant ariannol yn cael eu cysylltu â'r rhai sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â materion tai/digartrefedd; diwygio lles; tlodi plant; tlodi tanwydd; a strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles lleol.

2.22 **Credwn y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio cyfrifoldebau statudol sy'n bodoli eisoes (e.e. dyletswyddau tlodi plant) ac amrywiaeth o ddulliau eraill yn fwy effeithiol i wella cynhwysiant ariannol ymysg y boblogaeth leol, heb orfod cyflwyno deddfwriaeth ychwanegol.** Er enghraifft, drwy'r gwaith a wneir gan hyrwyddwyr gwrthdlodi ym mhob awdurdod lleol; yr agenda diwygio gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys cynlluniau integredig sengl; Rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, Rhaglen Cefnogi Pobl a fforymau eraill fel y Byrddau Gwasanaethau Lleol, a lle maent yn bodoli, partneriaethau cynhwysiant ariannol a Byrddau Diwygio Lles lleol.

**C2: A ydych yn credu bod y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol?**

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 3.

**C3: A yw adrannau'r Bil, fel y'u drafftiwyd, yn briodol i gyflwyno'r amcanion a ddisgrifir uchod? Os nad ydynt, pa newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Bil?**

*Addysg ariannol mewn ysgolion*

3.1 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n credu bod arweiniad cryf mewn ysgolion a darparu cymorth priodol i athrawon i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol (o ran eu hyfforddiant eu hunain a datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau allanol) yn hanfodol er mwyn sicrhau bod darpariaeth addysg ariannol yn gwella mewn ysgolion yng Nghymru.

Ni ddylid cymryd yn ganiataol bod gan bob athro ac athrawes allu ariannol. Mae cynhyrchion a gwasanaethau ariannol newydd hefyd yn golygu bod anghenion gallu ariannol yn faes sy'n esblygu lle mae angen cynnal y lefelau o sgiliau a chymhwysedd. Felly, bydd gan bobl sy'n darparu addysg ariannol anghenion hyfforddi cyson.

3.2 Fel y nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol, gwnaeth Uned Addysg Ariannol Cymru (WFEU), a oedd mewn grym rhwng mis Medi 2008 a mis Awst 2013, waith pwysig i ddarparu cymorth angenrheidiol i ysgolion ac athrawon fel y gallent ddarparu addysg ariannol. Bu o gymorth hefyd drwy nodi a hyrwyddo arferion da a deunyddiau priodol ar gyfer addysgu addysg ariannol, yn cynnwys adnoddau dwyieithog.

3.3 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n credu bod yna alw o hyd am y swyddogaethau yr arferai'r Uned eu cyflawni. Mae adnoddau a deunyddiau ar gael o hyd i ysgolion drwy wefan Dysgu Cymru a rhagwelir y gallai'r rhain fod yn sail i unrhyw hyfforddiant ychwanegol sy'n ofynnol gan y Bil. Waeth a yw'r Bil yn mynd yn ei flaen ai peidio, bydd hi'n bwysig adolygu deunyddiau o'r fath yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn gyfredol, yn berthnasol ac o ansawdd da.

3.4 Rydym hefyd yn nodi'r Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol newydd a gyflwynwyd gan y Gweinidog Addysg ym mis Mehefin 2014. Bydd angen iddo gynnwys rhagor o gyfleoedd i gynorthwyo athrawon ac ysgolion i ddarparu addysg ariannol.

3.5 Er bod y datblygiadau hyn yn cael eu croesawu, nid yw'n eglur ar hyn o bryd a fyddant yn ddigonol i sicrhau darpariaeth addysg ariannol effeithiol mewn ysgolion na sut y bydd safonau ansawdd yn cael eu cynnal. Fel y soniwyd ym mharagraff 2.9, rydym yn credu bod monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn gofynion cyfredol a dyfodol y cwricwlwm yn hanfodol.

3.6 Mae'r gwerthusiadau o'n gwaith gallu ariannol ni wedi bod yn gadarnhaol tu hwnt. Fodd bynnag, ar draws darpariaeth addysg ariannol yn gyffredinol nid oes syniad pendant ar hyn o bryd pa ymyriadau sy'n gweithio orau, yn enwedig yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae gwahanol sefydliadau wedi bod yn ystyried y mater hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Deallwn fod y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn datblygu fframwaith gwerthuso cyffredin i ddarparu canllawiau ac adnoddau ymarferol i ddarparwyr addysg ariannol fel y gallant gynnal gwerthusiadau o effaith fel rhan o Strategaeth Gallu Ariannol y DU. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn.

3.7 **Os yw'r Bil yn mynd yn ei flaen byddem yn argymell cynnwys gofynion ychwanegol ar gyfer mesur a monitro cynnydd o dan adran 6.** Rydym yn cytuno y dylai monitro o'r fath fod yn elfen allweddol o'r drefn arolygu gyfredol a byddem yn cefnogi Estyn i arwain y gwaith hwn.

3.8 Credwn y dylid diffinio cynnwys yr adroddiad cynnydd blynyddol arfaethedig yn gliriach ar wyneb y Bil. Dylai hyn gynnwys lefel cysondeb y dull gweithredu drwy'r ysgol gyfan a chanlyniadau mesuradwy fel hyfforddiant a chymorth i athrawon; effaith ar ymwybyddiaeth ac ymddygiad disgyblion, ac adolygiad o ansawdd a

pherthnasedd y deunyddiau addysgu a ddefnyddir, yn cynnwys adnoddau dwyieithog lle bo'n briodol.

*Addysg ariannol yn y gymuned*

3.9 Mae Cyngor ar Bopeth Cymru hefyd yn credu nad yw'r drafft o'r Bil fel ag y mae yn cynnwys manylion ar sut y bydd cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd ariannol yn cael eu cryfhau mewn lleoliadau cymunedol, yn enwedig i rieni (i gefnogi gwaith ysgolion) ac oedolion sy'n fwy tebygol o wynebu anfantais.

3.10 Mae canolfannau Cyngor ar Bopeth yn cynnal sesiynau gallu ariannol wedi'u targedu at grwpiau gwahanol – yn cynnwys y rhai ar incwm isel; aelwydydd lle nad oes neb mewn gwaith cyflogedig; pobl ddigartref a phobl agored i niwed sy'n cael eu cartrefu; pobl â phroblemau iechyd meddwl; pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth cam-drin domestig a gweithwyr mudol.

Fel yn achos gwaith Cyngor ar Bopeth gydag ysgolion (gweler 5.1 isod) gall rhaglenni o'r natur hwn ddibynnu ar ffrydiau ariannu ansicr neu dargedu grwpiau penodol yn unig.

Er bod y Prosiect Cyngor Ariannol Wyneb yn Wyneb (gweler 3.1) wedi gwella'r cyngor ariannol sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn sylweddol, rydym yn dal i bryderu nad oes digon o gyngor, gwybodaeth a chymorth ar gyfer gallu ariannol ar gael i rai grwpiau agored i niwed, er enghraifft troseddwyr a'u teuluoedd.

**C4: Sut y bydd y Bil yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd, a pha effaith y bydd newidiadau o'r fath yn ei chael, os o gwbl?**

4.1 Mae Cyngor ar Bopeth mewn lle delfrydol i gyflawni gwaith gallu ariannol mewn ysgolion ond mae cyllid ar gyfer y gwaith hwn yn gallu bod yn ysbeidiol a gall cyfyngiadau cyllidwyr olygu bod rhaid targedu gwaith o'r fath at grwpiau eraill, er enghraifft oedolion di-waith neu rieni sengl. Bydd lefelau ymgysylltu hefyd yn dibynnu ar allu'r ganolfan gynghori unigol. Ledled Cymru a Lloegr yn 2013 dim ond 21 y cant o ganolfannau oedd yn darparu addysg ariannol oedd yn gweithio gydag ysgolion, o gymharu â 89 y cant a oedd yn gweithio gydag oedolion mewn lleoliadau cymunedol.

4.2 Yng Nghymru, roedd pedair canolfan (20 y cant) yn gweithio gydag ysgolion yn ystod 2013, yn cynnwys gwaith uniongyrchol gyda disgyblion. Yn gyffredinol, mae llawer o'r gwaith hwn yn cael ei wneud ad-hoc ac mewn ymateb i wahoddiad gan ysgolion, er bod rhai canolfannau'n cynnig eu gwasanaeth i ysgolion.

4.3 Pe bai addysg ariannol yn cael statws statudol yn y cwricwlwm sylfaenol byddem yn rhagweld cynnydd sylweddol yn y galw gan ysgolion am sesiynau gallu ariannol gan ganolfannau Cyngor ar Bopeth. Er y byddem yn croesawu hyn byddai angen rhagor o arian i gefnogi gallu pob canolfan unigol i reoli'r cynnydd disgwyliedig hwn mewn galw.

4.4 Byddem hefyd yn disgwyl i ganolfannau a darparwyr cyngor trydydd sector weld cynnydd yn y galw am gyngor ar reoli arian a mathau eraill o gyngor o bosibl e.e. cyngor ar ddyledion, os bydd y dyletswyddau newydd arfaethedig ar awdurdodau lleol yn cael eu cyflwyno, yn cynnwys mwy o gyfeirio at wasanaethau eraill.

Fel y nodwyd ym mharagraff 2.17, er ein bod yn croesawu gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, a bod trefniadau o'r fath ar waith mewn rhai ardaloedd, mae angen ystyried materion gallu posibl o ran bodloni unrhyw gynnydd mewn galw. Mae hyn yn arbennig o allweddol ar adeg pan fo canolfannau ledled Cymru eisoes yn gweld mwy o alw am eu gwasanaethau yn sgil diwygio'r system les a hinsawdd ariannol sy'n parhau i fod yn anodd.

**C5: Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt?**

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 4.

**C6: A oes gennych farn ynghylch y modd y daw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru?**

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru'n credu bod y Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**C7: Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddwfriaeth?**

Dim sylw.

**C8: Beth yw eich barn am oblygiadau ariannol y Bil?**

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 4.

**C9: A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am rannau penodol o'r Bil?**

Dim sylw pellach.